COVID-19 Update: 7th May

Welcome to the last COVID-19 update of the week from Cardiff Council.

Tonight: a chance to read again the plans for marking VE Day in Cardiff; Council Leader and Cabinet Member ask you to share the message: 'stay home, stay safe'; funding support announced for Cardiff care homes; re-modelling the city's public space for safety; and Welsh Proms Cymru cancelled due to coronavirus.

The Cardiff Council COVID-19 update will return on Monday.

Cardiff marking VE Day

Click here to see again how Cardiff is marking VE Day tomorrow:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23802.html

Follow Cardiff Council throughout the day on Twitter, Facebook and Instagram for lots of special VE Day content, including a video message from the Leader of Cardiff Council, Huw Thomas; brand-new colourized versions of photos taken in Cardiff on VE Day, 75 years ago; and a selection of photos from our archives.

Share the message: 'stay home, stay safe'

Dear Colleagues,

As you will know, Cardiff's parks have remained open throughout the ongoing public health emergency and we are keen to ensure that they remain open, so that residents who are not fortunate enough to have their own outdoor space can enjoy the mental and physical health benefits of exercising in the city's green spaces.
In general social distancing is being maintained, but with the approaching bank holiday and good weather forecast for at least part of the weekend, we are expecting the city's parks to be busier than we have seen previously.

We would therefore ask all members to help protect our key workers by sharing the message with residents to continue to stay home, stay safe and to maintain a safe social distance of two metres if they are using our parks for their daily exercise.

Over the 3 day bank holiday period staff from our parks team will work approximately 45 individual shifts, carrying out joint patrols with South Wales Police in the seven police sectors across the city.

The focus of the patrols will be on high footfall areas and known hotspots and will also cover our four cemeteries.

As well as ensuring the security of park facilities such as children's play areas, sports courts, skate parks and multi-use games areas, our parks team are there to support the police and educate park users on correct social distancing.

The responsibility for enforcing social distancing lies with the police and they have taken action against people using our parks inappropriately.

If you or residents in your wards are see people not complying with the rules on social distancing, these incidents can be reported to the Police by calling 101.

Kind regards

Cllr Huw Thomas, Council Leader
Cllr Peter Bradbury, Cabinet Member for Culture and Leisure

Funding support announced for Cardiff care homes

Cardiff Council and Cardiff Nursing and Residential Homes Association (CNARHA) are working together to ensure that care homes in Cardiff have what they need in order to meet the challenges of looking after people with COVID-19.

Following a joint consultation carried out to detail the costs to care homes associated with COVID-19, Cardiff Council has secured part of a £40m grant from Welsh Government.

This will ensure care homes across the city are supported during the current pandemic and continue to operate, as well as providing support to other essential adult services.

The Council will administer the fund, which will see each care provider receive an £80 extra per week per bed bought by the Council, for eleven weeks, until the end of May. This will be back dated from the beginning of the crisis in March and is in addition to agreed placement fees.

Cabinet Member for Social Care, Health and Wellbeing, Cllr Susan Elsmore said: "We appreciate that care homes will have additional expenditure related to the current health crisis and a consultation was undertaken to ensure we could draw on the correct level of funding from Welsh Government.

"We were impressed by the timely work carried out by CNARHA to identify these additional costs and the process has allowed the Council to gain a provider perspective. By listening to the concerns from care homes, we have been able to come up with a best outcome within available resources to help providers at this difficult time.

"Through partnership working, it has been possible to put the correct processes in place to support care homes in their management of COVID outbreaks which also goes towards supporting the NHS. The feedback from providers has been positive and I hope Cardiff's multi-agency approach can be used as an example to the rest of Wales."

Nava Navaratnarajah, secretary of the CNARHA said: “The survey consulted care homes in the Cardiff area on how to address cash flow problems faced during COVID-19.

“Undertaken in just three days to meet stringent time-lines, we also gauged support on the need for further sustainability grants to cover lost income from reduced occupancy rates during the pandemic. The survey highlighted various scenarios and identified what and where support is needed.

“The social care sector works hand in hand with the NHS and it is essential that care homes are recognised for their value in supporting the health and wellbeing of people in Wales. Given the availability of limited resources we feel the agreed support from Cardiff Council goes a long way towards helping to support the care home sector during COVID-19.”

Re-modelling the city’s public space for safety

Extending pavement space into the road, creating temporary cycleways, removing street furniture, carrying out a speed awareness campaign and re-designing public space around neighbourhood shopping centres are just some of the ideas being put forward by Cardiff Council immediately as part of the ongoing COVID-19 response.

With lockdown restrictions expected to be eased next week, Cardiff Council has been working hard behind the scenes to bring forward a number of pilot schemes designed to keep the public safe and able to socially distance in public spaces.

Cllr Caro Wild, Cabinet Member for Strategic Planning and Transport at Cardiff Council said: “With social distancing expected to be the ‘new normal’ for some time to come, this does pose a significant challenge both for residents and the local authority.

“The pavements in the city were not designed to allow a two metre distance between other people, so public space will have to be adapted to ensure social distancing can be maintained as the city gradually starts to re-open for business.”

The first neighbourhood shopping area which will be adapted for safety reasons is Wellfield Road in Plasnewydd. Plans have been drawn up to remove car parking on either side of the road to ensure that the pavement can be safely extended into the highway for the public to use.

Cllr Wild, added: “It is important everyone understands that the city can’t be transformed overnight to ensure social distancing guidelines are followed. This is a significant task and we have to be confident that any temporary measures we do put in place are safe for the public to use.

“Wellfield Road is the first neighbourhood shopping area pilot scheme which we are looking to adapt. Once these measures are in place and the necessary assessments are carried out, we will look to bring in other schemes in different areas of the city and work is also underway on creating a ‘safer city centre’ too. We will be working

with partners in the city centre to ensure any methods we introduce can work for businesses, residents and people travelling to work."

Other road traffic schemes are also being looked at in the city including bringing forward agreed Clean Air proposals in the city centre on Castle Street.

Cllr Wild said: "Before the COVID-19 outbreak, the council published and consulted on our 10-year strategic transport vision for the city. This included Clean Air plans for Castle Street.

"We will now bring forward some of these schemes which will help ensure the safety of the public during the recovery period. First up is the traffic lane next to the Castle on Castle Street which will be removed so that the walkway can be extended into the road for both pedestrians and cyclists to use. This will run from the Cathedral Road/Cowbridge Road junction, over Canton Bridge, along Castle Street, Duke Street and up to the North Road-Boulevard De Nantes junction.

"We will also be bringing forward the agreed transport improvement scheme in Wood Street and Central Square which will involve pedestrian safety improvements, restrictions on through traffic while ensuring and access is maintained for residents and businesses, as well as the development of a new cycleway on Wood Street."

Further schemes are also being devised to ensure that people can safely use sustainable transport to get around the city during the recovery period and further details will be given on these schemes in the weeks ahead.

Welsh Proms Cymru cancelled

Due to the ongoing situation with COVID-19, the Welsh Proms Cymru at St David's Hall (Saturday 18 – Saturday 25 July 2020) has been cancelled.

The National Concert Hall of Wales is still closed to the public in accordance with government guidelines about social distancing, which means hosting concerts is not possible.

It is hoped that the same exciting programme will be staged next year, but as the dates and orchestras are not confirmed yet, the venue are providing refunds for all Welsh Proms Cymru 2020 bookings. You will be automatically refunded if you paid by credit or debit card. Please call the Box Office on 073 9179 1934 between 9.30am – 4pm Monday – Friday if you paid by cash or gift vouchers.

At this busy time of postponements and cancellations, please allow the Box Office 10-14 days to finalise refunds. Also, please do not text this number or leave voice messages as they cannot respond to at present.

Diweddariad COVID-19: 7 Mai

Croeso i ddiweddariad COVID-19 olaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd.

Heno: cyfle i ddarllen eto y cynlluniau ar gyfer nodi Diwrnod VE yng Nghaerdydd; Arweinydd ac Aelod o Gabinet y Cyngor gofyn i chi rannu'r neges: 'aros gartref, aros yn ddiogel'; ailfodelu mannau cyhoeddus y ddinas er diogelwch; a Proms Cymru wedi eu canslo oherwydd y coronafeirws.

Bydd diweddariad COVID-19 Cyngor Caerdydd yn dychwelyd ddydd Llun.

Caerdydd yn nodi Diwrnod VE

Cliciwch yma i weld unwaith eto sut mae Caerdydd yn nodi Diwrnod VE yfory: https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23802.html

Dilynwch Gyngor Caerdydd drwy gydol y dydd ar Twitter, Facebook ac Instagram am lawer o gynnwys arbennig yn ymwneud â Diwrnod VE, gan gynnwys neges fideo gan arweinydd Cyngor Caerdydd, Huw Thomas; fersiynau lliwgar newydd sbon o luniau a gymerwyd yng Nghaerdydd ar Ddiwrnod VE, 75 o flynyddoedd yn ôl; a detholiad o luniau o'n harchifau.

Rhannwch y neges: 'aros gartref, aros yn ddiogel'

Annwyl Drigolion Caerdydd

Fel y gwyddoch, mae parciau Caerdydd wedi aros ar agor drwy gydol yr argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus ac rydym yn awyddus i sicrhau eu bod yn aros ar agor, fel y gall trigolion nad ydynt yn ddigon ffodus i gael eu lle hunain yn yr awyr agored, gael mwynhau manteision iechyd meddwl a chorfforol wrth ymarfer corff yn ardaloedd gwyrdd y ddinas.

Yn gyffredinol, mae pobl yn glynu wrth yr ymbellhau cymdeithasol, ond gan fod Gŵyl y Banc yn agosáu a rhagolygon tywydd da am ran o'r penwythnos o leiaf, rydym yn disgwyl i barciau'r ddinas fod yn brysurach nag a welwyd o'r blaen.

Felly, gofynnwn i chi helpu i ddiogelu ein gweithwyr allweddol drwy rannu'r neges, a pharhau i aros gartref, aros yn ddiogel a chynnal pellter cymdeithasol diogel o ddau fetr os oes rhaid i chi ddefnyddio parciau'r ddinas ar gyfer eich ymarfer corff dyddiol.

Dros gyfnod tridiau gŵyl y banc bydd staff ein tîm parciau yn gweithio tua 45 o shifftiau unigol, gan fynd ar batrôl ar y cyd â Heddlu De Cymru yn y saith sector heddlu sydd yn y ddinas a'r pedair mynwent.

Yn ogystal â sicrhau diogelwch cyfleusterau'r parciau fel mannau chwarae i blant, cyrtiau chwaraeon, parciau sglefrio a mannau gemau amlddefnydd, mae ein tîm parciau yno i gefnogi'r heddlu ac i addysgu defnyddwyr y parc am ymbellhau cymdeithasol cywir.

Yr heddlu sy'n gyfrifol am orfodi ymbellhau cymdeithasol ac maent wedi cymryd camau yn erbyn pobl sy'n defnyddio ein parciau yn amhriodol.

Os ydych chi’n gweld pobl yn peidio â chydymffurfio â'r rheolau ar ymbellhau cymdeithasol, gellir adrodd am y digwyddiadau hyn wrth yr heddlu drwy ffonio 101.

Cofion gorau,

Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor:
Y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden

Ailfodelu mannau cyhoeddus y ddinas er diogelwch

Mae ymestyn palmentydd i heolydd, creu llwybrau beiciau dros dro, tynnu dodrefn stryd, cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth cyflymder ac ailgynllunio’r gofod cyhoeddus o amgylch canolfannau siopa cymunedol ymhlith y syniadau sy'n cael eu cynnig ar unwaith gan Gyngor Caerdydd yn rhan o’r ymateb parhaus i COVID-19.

Gan fod disgwyl y bydd y cyfyngiadau cloi yn cael eu llacio yr wythnos nesaf, mae Cyngor Caerdydd wedi bod yn gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni i gyflwyno nifer o gynlluniau peilot sydd â'r nod o gadw'r cyhoedd yn ddiogel a sicrhau ei bod yn bosibl ymbellhau’n gymdeithasol mewn mannau cyhoeddus.

Dywedodd y Cynghorydd Caro Wild, Aelod Cabinet Cyngor Caerdydd dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth: "Y disgwyl yw y bydd ymbellhau cymdeithasol yn rhan o’r ‘normal newydd’ am beth amser, ac mae hyn yn creu her sylweddol i drigolion a'r awdurdod lleol.

"Chafodd palmentydd y ddinas mo'u cynllunio i ganiatáu pellter o ddau fetr rhwng pobl eraill, felly bydd yn rhaid addasu gofod cyhoeddus i sicrhau y gellir cynnal ymbellhau cymdeithasol wrth i'r ddinas ddechrau ail-agor yn raddol ar gyfer busnes."

Yr ardal siopa leol gyntaf a gaiff ei haddasu am resymau diogelwch yw Wellfield Road ym Mhlasnewydd. Mae cynlluniau wedi'u llunio i gael gwared ar barcio ceir ar y naill ochr a'r llall i'r ffordd er mwyn sicrhau bod y palmant yn gallu cael ei ymestyn yn ddiogel i'r briffordd i'r cyhoedd ei defnyddio.

Ychwanegodd y Cynghorydd Wild: "Mae'n bwysig bod pawb yn deall na all y ddinas gael ei thrawsnewid dros nos i sicrhau bod canllawiau ymbellhau cymdeithasol yn cael eu dilyn. Mae hon yn dasg sylweddol ac mae'n rhaid i ni fod yn hyderus bod unrhyw fesurau dros dro y byddwn yn eu rhoi ar waith yn ddiogel i'r cyhoedd eu defnyddio.

"Wellfield Road yw'r cynllun peilot cyntaf ar gyfer ardal siopa leol rydyn ni’n bwriadu ei haddasu. Pan fydd y mesurau hyn ar waith a'r asesiadau angenrheidiol wedi cael eu cynnal, byddwn yn ceisio cyflwyno cynlluniau eraill mewn gwahanol rannau o'r ddinas ac mae gwaith hefyd ar y gweill i greu 'canol dinas ddiogelach' hefyd. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yng nghanol y ddinas i sicrhau y bydd unrhyw ddull a gyflwynwn yn gweithio i fusnesau, trigolion a phobl sy'n teithio i'w gwaith."

Mae cynlluniau traffig ffyrdd eraill hefyd yn cael eu hystyried yn y ddinas gan gynnwys cyflwyno'r cynigion ar Aer Glân y cytunwyd arnynt eisoes yng nghanol y ddinas ar Stryd y Castell.

Dywedodd y Cynghorydd Wild: "Cyn argyfwng COVID-19, y cyhoeddodd y Cyngor ein gweledigaeth trafnidiaeth strategol 10 mlynedd ar gyfer y ddinas, ar ôl ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau Aer Glân ar gyfer Stryd y Castell.

"Byddwn nawr yn cyflwyno rhai o'r cynlluniau hyn a fydd yn helpu i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn ystod y cyfnod adfer. "Byddwn nawr yn cyflwyno rhai o'r cynlluniau hyn a fydd yn helpu i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn ystod y cyfnod adfer. Y cyntaf fydd y lôn draffig ger y Castell ar Stryd y Castell a fydd yn cael ei chau er mwyn ymestyn y palmant i'r heol i'w ddefnyddio gan gerddwyr a beicwyr. Bydd hyn yn rhedeg o gyffordd Heol y Gadeirlan/Heol y Bont-faen, dros bont Treganna, ar hyd Stryd y Castell, Heol y Dug a hyd at gyffordd Heol y Gogledd - Boulevard de Nantes.

"Byddwn hefyd yn cyflwyno'r cynllun gwella trafnidiaeth y cytunwyd arno yn Stryd Wood a'r Sgwâr Canolog a fydd yn cynnwys gwelliannau i ddiogelwch cerddwyr, cyfyngiadau ar draffig trwodd tra'n sicrhau bod mynediad yn cael ei gynnal i breswylwyr a busnesau, yn ogystal â datblygu beicffordd newydd ar Stryd Wood."

Mae cynlluniau pellach hefyd yn cael eu creu i sicrhau y gall pobl ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy yn ddiogel i fynd o amgylch y ddinas yn ystod y cyfnod adfer a rhoddir manylion pellach am y cynlluniau hyn yn yr wythnosau i ddod.

Welsh Proms Cymru wedi'i ganslo

Oherwydd y sefyllfa barhaus gyda COVID-19, mae Welsh Proms Cymru yn Neuadd Dewi Sant (dydd Sadwrn 18 – dydd Sadwrn 25 Gorffennaf 2020) wedi'i ganslo.

Mae Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru yn dal ar gau i'r cyhoedd yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ynglŷn ag ymbellhau cymdeithasol, sy'n golygu nad yw cynnal cyngherddau yn bosibl.

Y gobaith yw y bydd yr un rhaglen gyffrous yn cael ei llwyfannu'r flwyddyn nesaf, ond gan nad yw'r dyddiadau a'r cerddorfeydd wedi'u cadarnhau eto, mae'r neuadd rhoi ad-daliadau i bawb sydd wedi archebu tocynnau ar gyfer Proms Cymru 2020. Byddwch yn cael eich ad-dalu'n awtomatig os ydych wedi talu gyda cherdyn credyd neu ddebyd. Ffoniwch y Swyddfa docynnau ar 073 9179 1934 rhwng 9.30 am - 4pm Llun - Gwener os ydych wedi talu am y tocynnau gydag arian parod neu dalebau rhodd.

Ar yr adeg brysur hon o ohiriadau a chansladau, dylech nodi y gall gymryd hyd at 10-14 diwrnod i'r Swyddfa Docynnau gwblhau ad-daliadau. Hefyd, gofynnwn i chi beidio â thecstio'r rhif hwn na gadael negeseuon llais gan na allant ymateb ar hyn o bryd.